Sarah (Sally) Charles, 1753–1814
Cristion a gwraig fusnes

‘Gofalodd Mrs Charles gyda’r fath egni tros ei busnes fel na fu iddo darfu ar feddwl ei gŵr yn ei stydi; ac felly mae’n ymddangos ein bod yn ddyledus am Y Fibl Gymdeithas i raddau pell iawn i fenyw. Petai hi wedi gofyn i’r dyn a feddyliodd am y Gymdeithas ymboeni gyda materion bydol, ni byddai Cymdeithas gennym hyd y dydd hwn.’

Joseph Harris (Gomer)

Unig blentyn David a Jane (Siân) Jones, siopwyr yn y Bala, oedd Sally, ac fe’i ganwyd ar 12 Tachwedd 1753. Bu farw ei thad pan oedd hi tua chwech oed ac fe ailbriododd ei mam – a oedd yn un o ddychweledigion cynnar Howell Harris – â Thomas Foulkes.

Treuliodd lawer o amser yn cynorthwyo ei rhieni yn y siop, yn ystod ei phlentyndod, ac wrth brifio ysgwyddai fwy a mwy o’r cyfrifoldebau, megis prynu a gwerth nwyddau a chadw golwg ar waith y morwynion a’r gweision. Daeth perchnogaeth y siop iddi pan fu farw ei mam ym 1785. Ailbriododd Thomas Foulkes gan symud i Fachynlleth lle agorodd siop arall. Roedd y siop yn y Bala yn llwyddiant, a Sally, a oedd yn wraig o synnwyr cyffredin cryf, yn fedrus wrth drin y busnes. Yr oedd yn aelod gydag achos y Methodistiaid Calfinaidd yn y Bala a daeth i sylw rhai o arweinyddion y cyfnod. Anfonodd William Williams, Pantycelyn, gerdd ganmoliaethus iddi ym 1823 a bu’n hanner gobeithio y byddai’n priodi ei fab.

Yn ystod haf 1778 aeth Thomas Charles ar ymweliad â’r Bala a syrthiodd dros ei ben a’i glustiau mewn cariad â hi. Datblygodd y berthynas i fod yn un o garwriaethau mawr Cymru. Dechreuodd ysgrifennu llythyrau ati, ac mae’r rhain yn dal ar gael. Anfonodd y cyntaf yn Rhagfyr 1779, lle dywedodd fod y cipolwg a gawsai ohoni flwyddyn a hanner ynghynt wedi ei lorio’n llwyr ac na allai beidio â meddwl amdani. Ar y pryd yr oedd yn gweithio yn ei ofalaeth eglwysig gyntaf yng Ngwlad yr Haf ar ôl gadael y coleg

yn Rhydychen, a daliodd ati i ysgrifennu'n gyson. Mynegodd ei gariad tuag ati a'i awydd i'w phriodi, ond yr oedd hi'n gyndyn iawn i ymateb yn gadarnhaol ar y cychwyn. Cadwai ef o hyd braich gan dynnu arno ac awgrymu mai ar ei harian yr oedd ei lygaid. Ceisiodd Thomas Charles ei chael i symud o'r Bala ond gwrthododd yn llwyr. Credai mai yn y Bala yr oedd ei lle ac mai ei dyletswydd oedd gofalu am ei mam a'i llystad.

Ceisiodd ddarbwyllo Thomas Charles mai gwell fyddai iddynt roi'r gorau i'r berthynas, ond torrwyd ar y ddadl trwy iddo ef symud i fyw i'r Bala ac fe'i priodwyd ar 20 Awst 1783 yn eglwys Llanycil. Trwy Ragluniaeth ac ystyfnigrwydd Sally daeth Thomas Charles yn ôl i Gymru i fyw, ac nid yn unig hynny; fe'i tynnodd yn ôl i fod yn rhan allweddol o ddatblygiad Anghydffurfiaeth. 'Trwy ddirgel ffyrdd mae'r uchel Iôr yn dwyn ei waith i ben.'

Daeth eu cartref yn gwch gwenyn o weithgarwch; yr oeddynt yn hael iawn eu lletygarwch a byddai pobl yn aros gyda nhw yn aml. Yno hefyd y cynhaliwyd yr ysgol Sul gyntaf yn y Bala, a hynny er gwaethaf gwrthwynebiad. Fe gawsant dri o blant, dau fab a merch. Bu Sally farw ar 24 Hydref 1814 a rhoddwyd ei gweddillion i orffwys ym mynwent eglwys Llanycil, y Bala.